# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)30-10

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2010
**Amser:**08.30
**Lleoliad:**Ystafell Bwyllgora 4, Ty Hywel

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)28-10 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 9 Tachwedd 2010**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)29-10(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai Dirprwy Lywydd Dros Dro yn cael ei ethol ar ddechrau Cyfarfod Llawn dydd Mercher, yn absenoldeb y Llywydd.

3.2. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid trefn busnes y Cynulliad fel y gallai'r cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad gael eu gofyn cyn y cynnig i benodi Comisiynydd Safonau.

3.3. Cytunodd y Pwyllgor na fydd y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth a dydd Mercher yn digwydd cyn 5.00pm.

3.4. Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 16 a 17 Tachwedd 2010.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)30-10(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)30-10(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu dadl fer Nick Bourne (NDM4568—Gwarchod Gwasanaethau Iechyd Gwledig) a'i chynnal ar 24 Tachwedd.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Deddfwriaeth

**(i) Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)**

**Papur gan y Gweinidog ar Fesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru) – BC(3)30-10(p4a); amserlen ddarluniadol – BC(3)30-10(p4b)**

**Papur gan Swyddfa Ddeddfwriaeth y Cynulliad ynghylch cyfeirio Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru) a'r amserlen ar ei gyfer - BC(3)30-10(p5)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru) at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2. Cytunodd y Pwyllgor Busnes mai 17 Rhagfyr 2010 fyddai'r dyddiad cau i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, yn amodol ar drafodaeth bellach â'r Pwyllgor.

## 5. Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog

**(i) Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog: RhS 27 Gweithdrefnau cyllid – BC(3)30-10(p6)**

**Atodiad A – Tabl o Newidiadau – BC(3)30-10(p6a)**

**Atodiad B - Rheol Sefydlog Ddiwygiedig - BC(3)30-10(p6b)**

5.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau yn ymwneud â gweithdrefnau cyllid (Rheol Sefydlog 27). Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ar y newidiadau arfaethedig, gyda'r bwriad o'i ystyried ymhellach ym mhumed cyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor Busnes ar 30 Tachwedd.

**(ii) Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog: RhS 30 Adroddiadau ar weithdrefnau – BC(3)30-10(p7)**

**Atodiad A – Tabl o Newidiadau – BC(3)30-10(p7a)**

**Atodiad B - Rheol Sefydlog Ddiwygiedig - BC(3)30-10(p7b)**

5.2 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau yn ymwneud ag adroddiadau ar weithdrefnau (Rheol Sefydlog 30). Gwnaeth y Rheolwyr Busnes gais am gynnig diwygiedig a fyddai'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru yn well.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**